Ysgol Iolo Morganwg

Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

Yn Ysgol Iolo Morganwg rydym wedi ymrwymo i sicrhau triniaeth gyfartal o'i holl weithwyr cyflogedig, disgyblion ac unrhyw rai eraill sy'n rhan o gymuned yr ysgol, sydd ag unrhyw fath o anabledd.

Ein nod yw meithrin diwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth lle bydd pobl yn teimlo'n rhydd i ddatgelu eu hanabledd ac i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Caiff cyflawniad disgyblion a myfyrwyr anabl ei fonitro a byddwn yn defnyddio'r data hwn i godi safonau ac i sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau bod amgylchedd yr ysgol mor hygyrch â phosibl. Yn Ysgol Iolo Morganwg credwn fod amrywiaeth yn gryfder, a ddylai gael ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n dysgu, yn addysgu ac yn ymweld yma.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd hwn yn nodi ymagwedd at hyrwyddo cydraddoldeb anabledd ym mhob agwedd ar fywyd ein ac yn cyfeirio at:

- Ddisgyblion
- Rhieni/gofalwyr
- Staff
- Aelodau o gymuned ehangach yr ysgol

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Cyflwyniad

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DGSA 2005) yn cyflwyno dyletswydd newydd i awdurdodau cyhoeddus ac ysgolion hyrwyddo cydraddoldeb anabledd ar draws holl swyddogaethau ysgolion. Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd (DCA) yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu ymagwedd ragweithiol at wneud newid gwirioneddol, cadarnhaol i fywydau pobl anabl, nid disgyblion yn unig, drwy hyrwyddo cydraddoldeb anabledd yn eu holl arferion, polisïau a gweithdrefnau. Mae i'r DCA ddwy elfen, sef:

- Y Ddyletswydd Gyffredinol – sy'n berthnasol i bob awdurdod cyhoeddus
- Y Ddyletswydd Benodol – sydd ond yn berthnasol i gyrff penodol, gan gynnwys ysgolion

Diffiniad o anabledd

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 (DGSA) yn diffinio person anabl fel rhywun â ganddo 'nam corfforol neu feddyliol ag effaith andwyol sylweddol neu hirdymor ar ei allu neu ei gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'.

Mae DGSA 2005 hefyd wedi estyn y diffiniad o anabledd fel a ganlyn:

- Bernir bod pobl ag HIV, y parlys ymledol a chanser (er nid pob canser) yn anabl cyn iddynt ddioddef yr effaith andwyol hirdymor a sylweddol ar eu gweithgareddau.
- Diwygiwyd Adran 18 fel nad oes rhaid i unigolion â salwch meddwl ddangos mwyach ei fod "wedi'i gydnabod yn dda yn glinigol", er bod rhaid i'r person ddangos effaith andwyol hirdymor a sylweddol ar ei allu/ei gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r diffiniad o anabledd. Am fwy o fanylion, dilynwch y ddolen isod:-

http://www.drc-gb.org/docs/definition_guidance_final.doc

Y Ddyletswydd Gyffredinol

O dan y Ddyletswydd Gyffredinol mae'n ofynnol i ysgolion, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Hyrwyddo Cyfleoedd Cyfartal
- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon
- Dileu aflonyddwch sy'n gysylltiedig ag anabledd
- Hyrwyddo agweddau positif tuag pobl anabl
- Annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus
- Bodloni anghenion pobl anabl, hyd yn oed os bydd hyn yn gofyn am driniaeth fwy ffafriol

Y Ddyletswydd Benodol

O dan y ddyletswydd benodol, mae'n ofynnol i ysgolion baratoi Cynllun Cydraddoldeb Anabledd (CCA). Rhaid i'r CCA gael ei baratoi gyda chyfranogiad pobl anabl a rhaid iddo gynnwys:

- Datganiad am y ffyrdd y mae pobl anabl wedi eu cynnwys
- Dulliau o asesu effaith
- Trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth
- Sut bydd yr ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir
- Plan gweithredu o sut mae'r DCA wedi'i gyflawni

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Y Ddyletswydd Gyffredinol

Er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i fodloni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, mae Ysgol Iolo Morganwg wedi llunio cynllun gweithredu i wneud i bethau ddigwydd, sy'n amlinellu sut caiff gofynion y DGSA 2005 eu bodloni. Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i lunio drwy ymgynghori â phobl anabl fel yr amlinellir yn yr adran flaenorol, ac mae'n cynnwys:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r dulliau y gall rhieni plant a phobl ifanc anabl helpu i gefnogi eu dysgu, er enghraifft drwy weithdai
- Sicrhau bod pob taith ysgol/clwb ôl-ysgol yn hygyrch i ddisgyblion anabl
- Rhoi mwy o amser i staff anabl farcio gwaith cwrs disgyblion os oes ei angen oherwydd eu hanabledd
- Dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y DGSA ac aflonyddu pobl anabl sy'n gysylltiedig â'u hanabledd.
- Monitro digwyddiadau o aflonyddu a bwlio disgyblion anabl. Annog disgyblion i adrodd am ddigwyddiadau.
- Ymchwilio i faterion penodol a'u trafod gyda phob disgybl drwy amser cylch, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Gwasanaeth bore'r ysgol
- Sicrhau bod gan bob rhiant fynediad i wybodaeth mewn fformatau gwahanol gan gynnwys galwadau ffôn/ ymweliadau cartref os oes angen
- Hyrwyddo agweddau positif tuag at bobl anabl.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- Defnyddio amgylchedd yr ysgol i hyrwyddo agweddau positif tuag at anabledd. Sicrhau bod anabledd yn cael ei gynrychioli mewn posteri, llyfrau, arddangosiadau a deunyddiau dysgu.
- Hyrwyddo agweddau positif tuag at bobl anabl
- Dathlu a thynnu sylw at ddigwyddiadau pwysig fel y Gemau Paralympaidd, Wythnos Ymwybyddiaeth Pobl Fyddar ac Ymwybyddiaeth o Ddyslecsia
- Siaradwyr gwadd/modelau rôl yn yr ysgol
- Annog cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus gan bobl anabl.
- Sicrhau bod disgyblion anabl yn cael eu cynrychioli a'u hannog i gymryd rhan mewn gwasanaethau dosbarth, dramâu, digwyddiadau ac ar gyngor yr ysgol
- Annog ceisiadau oddi wrth bobl anabl i'r Corff Llywodraethol

Y Ddyletswydd Benodol

Cynnwys pobl sy'n anabl yn natblygiad y cynllun hwn:

Mae'n ofyniad y dylai disgyblion, staff a'r rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau'r ysgol sy'n anabl gymryd rhan mewn cynhyrchu'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd.

Mae Ysgol Iolo Morganwg wedi cynnwys disgyblion, staff ac aelodau o gymuned yr ysgol sy'n anabl yn natblygiad ein Cynllun Cydraddoldeb Anabledd drwy:

- Holi disgyblion yr ysgol ag anableddau
- Ymgynghori â gwahanol asiantaethau sy'n cynrychioli gwahanol anableddau

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am effaith ein polisïau a'n hymarfer ar bobl anabl:

Rydym wedi ymgynghori â disgyblion / staff / rhieni / defnyddwyr cymunedol anabl i bennu eu blaenoriaethau ar gyfer yr ysgol o ran y cynllun cydraddoldeb anabledd hwn dros y tair blynedd nesaf drwy:

- Grwpiau ffocws
- Holiaduron
- Cyngor yr Ysgol

Rydym yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion anabl drwy *gofrestr PLASC/SEN* ac yn monitro eu cynnydd a'u cyflawniadau. Mae'r cydgysylltydd Anghenion Addysgol Ychwanegol (AAY) yn gyfrifol am hyn.
Rydym yn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol ar gyfer staff yn casglu gwybodaeth am anabledd.

Byddwn yn cadw cofnod o rieni/gofalwyr ag anabledd. Bydd y cydgysylltydd AAY yn gyfrifol am wneud hyn.
Byddwn yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth yn cael ei chasglu mewn modd sensitif ac yn rhoi esboniad o ddiben yr ymarfer hwn. Byddwn yn sicrhau bod disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, staff ac aelodau o'r gymuned yn teimlo'n gysurus yn yr ysgol er mwyn iddynt gael codi unrhyw faterion neu anawsterau sydd ganddynt o bosibl o ganlyniad i'w hanabledd.
Caiff y wybodaeth ei defnyddio i nodi meysydd arfer dda a'r meysydd i'w datblygu ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol gan gynnwys:
Lledaenu gwybodaeth, mynediad i'r adeilad, mwy o gyfleoedd ac ati
Caiff y wybodaeth hon ei dadansoddi a'i defnyddio'n sail i baratoi, monitro a gwerthuso'r plan gweithredu ac adolygu effeithiolrwydd y camau a gymerir.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Monitro ac adrodd

Mae'n bwysig monitro effaith cam a gymerir er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at fodloni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol yn digwydd o ganlyniad i'r camau.

Caiff y camau a amlinellir yn y cynllun gweithredu eu monitro yn unol â'r amserlenni penodedig. Os gwelir unrhyw effeithiau andwyol yn ystod y broses fonitro, bydd angen diwygio'r cynllun gweithredu.

Caiff yr adroddiad hwn ei gylchredeg i'r Pennaeth a Llywodraethwyr, a defnyddir y canfyddiadau i wella'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd ac i lywio ymarfer yn y dyfodol.

Dylan Evans Gwanwyn 2010

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image